Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona, Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd

Dydd Mercher 27 Mawrth 2019 am 12.30

1. Yn bresennol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

John Griffiths AC (Llafur) – Cadeirydd

Alun Davies AC (Llafur)

David Rees AC (Llafur)

Adam Price AC (Plaid Cymru)

Llyr Gruffydd AC (Plaid Cymru)

Helen Mary Jones AC (Plaid Cymru)

Becs Parker – Swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AC

Staff o swyddfeydd Julie Morgan AC, Lee Waters AC, Mike Hedges AC a Carl Spiller o dîm Digartrefedd Llywodraeth Cymru yn cynrychioli Hannah Blythyn AC.

Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Cerith Thomas – Cynghorydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i Dîm Plismona Cymru Gyfan, Ysgrifennydd y Grŵp

Siân Curley – Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Prif Gwnstabliaid

Carl Foulkes – Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru

Matt Jukes – Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru

Julian Williams – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent

Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu De Cymru

Steve Thomas – Uwcharolygydd dan Hyfforddiant, Uned Gyswllt yr Heddlu

Chris O'Driscoll – Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu

Mynychwr gwahoddedig

Steve Chapman – Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru, Cydgysylltydd Gwrth-gaethwasiaeth

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Julie James AC – Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AC – Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mark Collins – Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru

Robert (Bob) Evans – Dirprwy Brif Gwnstabl, Tîm Plismona Cymru Gyfan

Y Rhingyll Steve Treharne – Cadeirydd JBB, Ffederasiwn Heddlu De Cymru.

2. Cyflwyniad

2.1 Croesawodd Mr John Griffiths AC bawb i drydydd cyfarfod y grŵp a gwahoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan i roi cyflwyniad ar yr heriau sy'n wynebu gwasanaeth yr heddlu wrth ymdrin â phobl ddigartref, yn cysgu ar y stryd a'r cysylltiad â chamddefnyddio sylweddau.

2.2 Esboniodd PCC Jeff Cuthbert ymhellach y byddai ACC Vaughan yn nodi cymhlethdod y materion a wynebir gan wasanaeth yr heddlu ac y byddai PCC Alun Michael yn esbonio'r hyn y mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi'i gyfrannu at weithio mewn partneriaeth yn y maes hwnnw.

3 Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan ar yr heriau sy'n wynebu gwasanaeth yr heddlu wrth ymdrîn â phobl ddigartref, yn cysgu ar y stryd a'r cysylltiad rhwng hyn â chamddefnyddio sylweddau – Arweinydd plismona yng Nghymru ym maes cysgu ar y stryd a digartrefedd

3.1 Tynnwyd sylw at y materion allweddol sy'n effeithio ar wasanaeth yr heddlu o ran cysgu ar y stryd a digartrefedd yng Nghymru fel a ganlyn:

- Mae’r problemau'n drawsbynciol ac nid dim ond i wasanaeth yr heddlu y maent yn gymwys. Mae angen i asiantaethau gwahanol ymateb er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. At hynny, nid yw bob amser yn glir pwy sy'n arwain ar faterion cymhleth mewn perthynas â'r bartneriaeth.
- Mae angen cydbwyso'r gwaith o ymateb i'r cyhoedd, ymdrîn â throseddu, cardota ymosodol a chysgu ar y stryd. Esboniodd nad yw pob cardotyn, yn ymosodol ai peidio, yn ddigartref.
- Mae'n rhaid i swyddogion fynd i’r afael â throseddau a'u hatal.
- Mae amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth.
- Mae'r heddlu'n ymdrîn ag anghenion cymhleth sy’n deillio o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.
- Mae'r heddlu yn ymateb i bobl pan maent mewn argyfwng a bod anhawster o ran methu mynd â phobl i lety addas. Nid yw cell heddlu nac ysbyty'n addas.
- Lle mae llety ar gael i'r digartref, nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio oherwydd bod pobl yn ofni mynd yno o ganlyniad i'r bygythiad o drais neu oherwydd na chânt ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar y safle.

- O ran lle diogel i bobl ddigartref fynd iddo, mae angen darparu ystod o wasanaethau a fydd ar gael 24/7 yn hytrach na dim ond oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Mae'r diffyg gwasanaethau sydd ar gael 24 awr y dydd yn effeithio ar bobl a gaiff eu rhyddhau o'r carchar ar brynhawn Gwener yn arbennig o wael. Yn nodweddiadol, mae 30 y cant – 50 y cant o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi'u rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar.

3.2 Rhoddodd Alun Michael, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ei chyd-destun, a thynnodd sylw at y canlynol:

- Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gweithio mewn maes datganoledig er bod plismona'n parhau i fod yn bŵer a gedwir yn ôl.
- Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn galluogi pobl i weithio'n well yng Nghymru nag yn Lloegr, gan gynnwys y gyd-arweinyddiaeth ar faterion strategol.
- Mae diogelwch cymunedol yn cael ei adnewyddu'n barhaus ar draws Cymru ac mae'n cael ei gefnogi gan y Comisiynwyr a CLlLC.
- Yng Nghymru, mae dull gweithredu'r Comisiynwyr o ran iechyd y cyhoedd wrth iddynt fynd i'r afael ag achosion troseddau sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).
- Mae dull gweithredu'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn fwy gwybodus o ran ymyrryd yn gynnar.
- Mae ymateb y Comisiynwyr ar y cyd ag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol i gamddefnyddio sylweddau'n darparu gwasanaeth ymatebol i ddioddefwyr a throseddwyr.
- Dysgwyd llawer o ran mentrau iechyd meddwl o'r gwaith a wnaed yng Ngogledd Cymru a Gwent.
- Mae'r fframwaith i leihau troseddwyr yn fframwaith cyffredinol yng Nghymru.

3.3 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw welliant wedi bod yn gyffredinol o ran nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru.

3.4 Yn ei ymateb, nododd ACC Vaughan, o safbwynt plismona, fod llai o adroddiadau a llai o arestiadau wedi bod dros y 12 mis blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd yr Heddlu'n cadw data ar lefelau digartrefedd yng Nghymru.

3.5 Nododd Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, fod yr heddlu a staff awdurdodau lleol â chyfrifoldeb dros ymateb i ddigartrefedd yng Nghaerdydd yn gweithio gyda'i gilydd ar y strydoedd. Tynnodd sylw at newid sydd wedi bod yn agwedd y rhai sy'n cardota ar y strydoedd a'r ffaith eu bod bellach yn fwy cwrtais ac yn llai ymosodol. Y rheswm am hynny yw y byddai cardota'n ymosodol yn fater i'r heddlu a bod y cyhoedd yn hael ac yn fwy tebygol o roi i rywun a oedd yn gwrtais. Cyfeiriodd at y gwaith a wnaed i ddarganfod a oedd y rhai a oedd yn cardota hefyd yn ddigartref a soniodd am enghraifft ddiweddar lle nad oedd 15 o grŵp o 16 o bobl a oedd yn cardota'n ddigartref. Nid oedd yn glir a oeddent yn camfanteisio ar y cyhoedd yn hynny o beth.

3.6 Esboniodd ymhellach fod yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull gweithredu graddedig a bod digon o gefnogaeth ar gael i bobl ddigartref yng Nghaerdydd.

3.7 Cadarnhaodd PCC Jeff Cuthbert y cafwyd trafodaethau tebyg yn BGC Casnewydd a'i fod hefyd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i reoli'r un math o broblemau.

3.8 Cyfeiriodd Alun Davies AC at bwysigrwydd y rhyngwyneb rhwng yr heddlu a gwasanaethau eraill, sef Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwysleisiodd fod angen gwasanaeth cyfannol ac ystyried safbwynt y gyfraith o ran camddefnyddio sylweddau.

3.9 Cyfeiriodd ACC Vaughan at y mater anodd mewn perthynas â lle y mae'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau'n mynd i gymryd cyffuriau. Rhaid i waith Canolfan Huggard a'r heddlu fod yn gyfreithlon a bod yn ymarferol hefyd wrth weithio gydag asiantaethau eraill.

3.10 Roedd PCC Arfon Jones wedi ymweld â Chanolfan Huggard sawl gwaith ac roedd yn amlwg nad oedd yn amgylchedd diogel, yn enwedig i fenywod. Nid oedd yn darparu ystafelloedd er mwyn cymryd cyffuriau a fyddai'n helpu i fynd â'r broblem oddi ar y strydoedd.

3.11 Tynnodd ACC Vaughan sylw at yr angen i ddylunio llety'n briodol gan y byddai pobl sy'n gaeth i gyffuriau'n parhau i eisiau eu cymryd.

3.12 Gofynnodd Alun Davies AC sut y dylai'r gyfraith helpu'r heddlu i weithio gydag eraill i gael canlyniadau gwell.

3.13 Pwysleisiodd ACC Jeremy Vaughan fod yr heddlu'n trin cyflenwi cyffuriau’n ddifrifol iawn ac nad oedd yn bosibl datrys y broblem drwy arestio nifer o bobl gan fod gwerthwyr newydd yn dod i gymryd lle’r hen rai o fewn munudau.

3.14 Nododd CC Matt Jukes y newid a fu'n ddiweddar o ran 20 o bobl yn cael eu gwneud yn ddigartref yng Nghaerdydd o gymharu hyn â'r nifer flaenorol, sef 80. Mae defnyddio Spice a chyffuriau seicoweithredol eraill yn niweidiol i ddefnyddwyr. Roedd pobl eraill sy’n agored i niwed yn cynnwys gweithwyr rhyw ar y stryd. Pwysleisiodd hefyd nad oedd arestio pobl yn ddatrysiad yn y tymor hir. Yn y gorffennol, roedd yr heddlu wedi gwthio'n ôl yn erbyn y dull gweithredu nodwydd lân, ond ei fod yn arferol erbyn hyn. Roedd cyfle i Gymru fod yn flaengar yn y maes hwn a dechrau edrych ar bethau'n wahanol.

3.15 Cyfeiriodd PCC Arfon Jones at adroddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a oedd yn argymell darparu ystafelloedd ar gyfer defnyddio cyffuriau. Ymhellach, mater i Lywodraeth y DU oedd penderfynu a ddylid gweithredu hyn fel mater sy'n ymwneud ag iechyd yn hytrach na phlismona.

3.16 Cyfeiriodd PCC Llywelyn at y gwasanaethau a gomisiynwyd gan Gomisiynwyr a oedd yn rhoi cefnogaeth i bobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol, gan dargedu'r rhai sydd yn y system cyfiawnder troseddol.

3.17 Cyfeiriodd hefyd at ddiben y Grŵp Trawsbleidiol, a ddylai arwain at gamau gweithredu i'w trafod ymhellach ac wedyn at ddylanwadu ar Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Roedd yn teimlo bod bwlch yn y gwasanaethau sydd ar gael i fenywod sy'n agored i niwed, a bod hyn yn arwain at ddigartrefedd. Mae angen edrych ar ba wasanaethau sydd ar gael er mwyn i wasanaeth yr heddlu a Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r broblem ar unwaith yn hytrach nag aros am ateb gan y Swyddfa Gartref.

3.18 Cam gweithredu: John Griffiths AC i wahodd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, i gyfarfod nesaf y Grŵp.

3.19 Roedd PCC Alun Michael yn teimlo nad oedd deddfwriaeth bob amser wedi gweithio a chrybwyllodd y nifer fawr o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Targedwyd hyn gan arweinydd y tîm digwyddiadau tyngedfennol dan arweiniad y BGC. Crëwyd ymateb ar y cyd a oedd yn cynnwys y gwasanaeth iechyd yn benodol er mwyn ymdrin â phroblemau iechyd meddwl. Cyfeiriodd hefyd at waith braenaru'r

menywod a'r angen i gyfuno gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ymwneud â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

3.20 Cyfeiriodd Adam Price AC at gymhlethdod a natur gydgysylltiedig y materion dan sylw yng nghydwybod y cyhoedd, a oedd yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r gymdeithas. Nid oedd yn briodol canolbwyntio ar rannau unigol o'r broblem ac roedd angen dull gweithredu mwy cyfannol. Rhoddodd enghraifft i brofi hyn, gan gyfeirio at Rodfa Lloyd George yng Nghaerdydd lle bu pryderon am ddefnyddio cyffuriau o dan fwâu’r rheilffordd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod rheiliau, gyda'r bwriadau gorau, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Fodd bynnag, oherwydd hynny, aeth y defnyddwyr cyffuriau i rywle arall, ac ni allai'r rhai a oedd yn cysgu ar y stryd ddefnyddio'r lle mwyach.

3.21 Awgrymodd PCC Jeff Cuthbert y dylid gwahodd Aelodau'r Cynulliad i gael trafodaeth fanylach ar y materion a hefyd i fynd ar daith gerdded gyda'r heddlu i'w hardaloedd priodol. Gellid defnyddio'r Grŵp Trawsbleidiol fel sianel ar gyfer materion plismona. Roedd gan wasanaeth yr heddlu ddiddordeb mewn buddsoddiadau tymor hir ac roedd yn croesawu mwy o ddeialog ar hyn neu unrhyw fater perthnasol arall.

3.22 Cyfeiriodd CC Mat Jukes at ddigwyddiad “Rhowch Ddiwrnod i Blismona” a gynhaliwyd yn 2018. Cynigiodd y gellid ei gynnal eto yng Nghaerdydd neu, os nad oedd hynny'n bosibl, yn etholaethau Aelodau'r Cynulliad. Roedd hyn yn gyfnod i weithio'n agosach gyda'n gilydd o ran hyrwyddo dealltwriaeth a'r ymgysylltiad gorau. Byddai'n gyfle i dynnu sylw at faterion megis gweithgarwch y dde eithafol, pobl yn dod yn llai goddefgar, a lefelau uwch o droseddau casineb.

3.23 Cytunodd John Griffiths AC â CC Jukes y byddai'n gyfle da i gynnal digwyddiad a chyfeiriodd at y digwyddiadau trasig diweddar, sef marwolaethau torfol yn y mosgiau yn Seland Newydd. Tynnodd sylw at bwysigrwydd gwrthsefyll anoddefgarwch lefel isel y rhai y canfyddir eu bod yn wahanol a'r rhai sy'n agored i niwed. Os na chaiff ymddygiad o'r fath ei herio, gall arwain at raniadau yn ein cymunedau, yn ogystal ag achosion o gamdrin a thrais yn y pen draw.

3.24 Soniodd Steve Chapman fod pobl ddigartref hefyd yn agored i niwed. Yn y gorffennol, roedd wedi trefnu digwyddiad yn y Cynulliad gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabliaid ac Aelodau'r Cynulliad i dynnu sylw at y cysylltiad rhwng hynny a gwrth-gaethwasiaeth. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r digwyddiad hwnnw.

3.25 Cam gweithredu: John Griffiths AC i ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu gwahodd i ddigwyddiad tebyg i “Rhowch Ddiwrnod i Blismona” a gynhaliwyd eisoes a hefyd i fynd ar daith gerdded gyda swyddogion heddlu i'w hardaloedd priodol.

3.26 Cyfeiriodd John Griffiths AC at Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Gydlyniant Cymunedol a fyddai'n thema dda ar gyfer y cyfarfod nesaf ar y cyd â'r strategaeth atal. Cafwyd cytundeb unfrydol â’i awgrym.

3.27 Cyfeiriodd PCC Jeff Cuthbert at sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Plismona dan gadeiryddiaeth Mark Drakeford, y Prif Weinidog. Croesawodd awgrymiadau gan y Cadeirydd a'r Grŵp Trawsbleidiol yn gyffredinol i gyfrannu at agenda'r Bwrdd. Mae'r bwrdd yn cael ei arwain gan yr heddlu a'i nod yw darparu un gwasanaeth cyhoeddus, ni waeth a yw wedi'i ddatganoli ai peidio.

4 Pwnc i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona

Cytunwyd mai thema'r cyfarfod nesaf fyddai strategaeth Llywodraeth Cymru ar gydlyniant cymunedol a'r strategaeth atal.

5 Camau gweithredu

1. **John Griffiths AC i wahodd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i gyfarfod nesaf y Grŵp.**

2. **John Griffiths AC i ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad i'w gwahodd i ddigwyddiad tebyg i "Rhowch Ddiwrnod i Blismona" a gynhaliwyd o'r blaen a hefyd i fynd ar daith gerdded gyda swyddogion heddlu i'w hardaloedd priodol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25